



At: Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu  
Corfforaethol

Dyddiad: Dydd Mawrth, 6  
Tachwedd 2012

Rhif Union: 01824712575

ebost: [dcc\\_admin@denbighshire.gov.uk](mailto:dcc_admin@denbighshire.gov.uk)

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL, DYDD MERCHER, 14 TACHWEDD 2012** am **9.30 am** yn **YSTAFELL BWLLGOR 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN.**

Yn gywir iawn

G Williams  
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

## AGENDA

### **RHAN 1 - GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I'R RHAN HON O'R CYFARFOD**

#### **1 YMDDIHEURIADAU**

#### **2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

Aelodau i ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu niweidiol mewn unrhyw fusnes sydd wedi ei nodi i'w ystyried yn y cyfarfod yma.

### **3 MATERION BRYS**

Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

### **4 COFNODION**

I dderbyn cofnodion y Cyfarfod Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar Fedi 26<sup>ain</sup>, 2012 (copi'n amgaeedig).

**9.35am – 9.40am**

### **5 LLYTHYR ASESIAID O WELLIANT SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

I ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwelliant Corfforaethol (copi'n amgaeedig) i ddarparu gwybodaeth ynglŷn ag un o'r adroddiadau rheoleiddiol allanol allweddol a dderbynnir gan y Cyngor bob blwyddyn.

**9.40am – 10.00am**

### **6 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL**

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (copi'n amgaeedig) sy'n darparu diweddariad ar gynnydd diweddaraaf y Gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran cyflenwi ei wasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd gyda gyrru gwelliant.

**10.00am – 10.15am**

### **7 ADRODDIAD BLYNYDDOL "EICH LLAIS"**

I ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cwsmeriaid a Chymorth Addysg (copi'n amgaeedig) yn darparu'r Pwyllgor â throsolwg o gwynion a chlod a dderbyniwyd gan Gyngor Sir Ddinbych yn ystod 2011/2012 a sut y perfformiodd y Cyngor o ran delio ag adborth.

**10.15am – 10.40am**

**10.40am – 10.55am Toriad**

### **8 DIWEDDARIAD AR REOLAETH Y TRYSORLYS**

I ystyried adroddiad gan yr Aelod Arweiniol dros Gyllid ac Asedau (copi'n amgaeedig) yn darparu manylion o weithgareddau Rheoli Trysorlys y Cyngor yn ystod 2012/2013 a darparu cefndir ar fuddsoddiadau a Datganiad blynyddol Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.

**10.55am – 11.30am**

## **9 BLAENRAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

I ystyried Blaenraglen Waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (copi'n amgaeedig).

**11.30am – 11.40am**

## **RHAN 2 - EITEMAU CYFRINACHOL**

### **GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Cymeradwyr, yn unol ag Adran 100A(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod yn ystod ystyriaeth o'r eitemau busnes canlynol gan ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth eithriedig (fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 18 Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf) yn cael ei datgelu.

## **10 DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000 (RIPA)**

I ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro/Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd (copi'n amgaeedig) i ddarparu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol â dau Adroddiad Ymchwilio allanol gan Swyddfa'r Comisiynwyr Arwylio a hefyd Swyddfa Comisiynwyr Ymyrryd â Chyfathrebu. Hefyd i ddarparu'r Pwyllgor â gwybodaeth am ddefnydd y Cyngor o'i bwerau dan Ddeddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000 (RIPA).

**11.40am – 12.00 canol dydd**

## **AELODAETH**

### **Y Cynghorwyr**

Raymond Bartley  
Stuart Davies  
Martyn Holland

Gwyneth Kensler  
Jason McLellan  
David Simmons

### **Aelod Lleyg**

Paul Whitham

## **COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth  
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd  
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn YSTAFELL GYNHADLEDD 1b, NEUADD Y SIR, RHUTHUN, Dydd Mercher, 26 Medi 2012 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Stuart Davies, Martyn Holland a/ac Jason McLellan (Cadeirydd) a/ac Paul Whitham.

### HEFYD YN BRESENNOL

P. McGrady (Head of Finance and Assets), R. Weigh (Chief Accountant) a/ac Gary Williams (Head of Legal and Democratic Services), Wales Audit Office Representatives (DO, AV and NR), Committee Administrator (CIW).  
Y Cynghorydd Bill Tasker a/ac Julian Thompson Hill

#### 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Raymond Bartley, Gwyneth Kensler a/ac David Simmons

#### 2 DATGAN BUDDIANNAU

**PENDERFYNWYD** – *na fu i unrhyw Aelod ddatgan unrhyw fuddiannau personol na buddiannau sy'n rhagfarnu unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.*

#### 3 MATERION BRYD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu trafod yn y cyfarfod fel materion bryd dan Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

#### 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 5ed Medi, 2012.

Materion yn codi:-

6. Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol – Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M L Holland mewn perthynas â chyflwyno'r adroddiad archwilio terfynol i'r Pwyllgor mewn perthynas â Gwasanaethau Cludiant Cartref i'r Ysgol, esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau y byddai'r adroddiad, a oedd yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd, yn cael ei ddsbarthu i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol pan fyddai'n barod.

8. Adroddiad Rheoli'r Trysorlys – Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham mewn perthynas â darpariaeth hyfforddiant ar reoli'r trysorlys, esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau y byddai adroddiad, neu sesiwn hyfforddi, yn cael ei ddarparu yn chwarterol, gyda'r sesiwn neu'r adroddiad nesaf ar y rhaglen ar gyfer Rhagfyr 2012.

**PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, derbyn a chymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir.

## 5 DATGANIAD CYFRIFON 2011/2012

Roedd copi o adroddiad gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau, yn gofyn i'r Aelodau gymeradwyo Datganiad Cyfrifon y Cyngor 2011/12, wedi ei ddsbarthu yn y cyfarfod.

Esboniodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau bod gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu datganiad cyfrifon a oedd yn cydymffurfio â safonau cyfrifeg cymeradwy. Cymeradwywyd y Datganiadau Ariannol ar gyfer 2011/12, yn amodol ar archwiliad, gan y Prif Swyddog Cyllid ym Mehefin 2012. Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cyngor yn cymeradwyo'n ffurfiol y cyfrifon wedi eu harchwilio, sy'n cynnwys barn yr archwiliwr allanol, erbyn diwedd Medi 2012. Roedd cymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig yn ffurfiol, gan aelodau etholedig ar ran y Cyngor, wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Cadarnhawyd bod y cyfrifon wedi bod ar gael i'w harchwilio ac yn agored i'r cyhoedd eu harchwilio. Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi cyflwyno Adroddiad Archwilio'r Datganiadau Ariannol a oedd yn cynnwys trosolwg o'u darganfyddiadau ac asesiad o'r broses.

Roedd y Datganiad Cyfrifon, yn cynnwys 149 o dudalennau, wedi ei gynhyrchu gan gydymffurfio â Chod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdod Lleol sy'n seiliedig ar y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd M.L. Holland, rhoddodd y Prif Gyfrifydd fanylion yn ymwneud â'r IFRS ac esboniodd bod cydymffurfio â'r IFRS wedi bod yn ofyniad ers 2010/11 gyda chyflwyniad parhaus safonau neu ofynion newydd. Y newid mwyaf nodedig ar gyfer cyfrifon 2011/12 oedd cyflwyno dosbarth newydd o asedau a elwid yn asedau treftadaeth, ac roedd yn Cyngor, yn unol â hynny, wedi newid ei bolisiâu a'i ddatgeliadau cyfrifeg yn y cyfrifon i gydymffurfio gyda'r Cod Ymarfe.

Mabwysiadwyd safonau cyfrifeg IFRS ledled y byd. Fodd bynnag, gan fod rhai meysydd o driniaeth cyfrifeg sector cyhoeddus yn gwyro oddi wrth yr IFRS, fel mewn gofynion deddfwriaethol, cyflwynwyd Safonau Cyfrifeg Cyhoeddus Rhyngwladol i ddelio â'r darpariaethau hynny.

Roedd Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio'n agos â'r tîm Cyllid i sicrhau cwblhau'r archwiliad yn amserol a llwyddiannus. Roedd y broses archwilio wedi arwain at addasiadau technegol, cywiriadau eraill ac roedd newidiadau a manylion wedi eu cynnwys yn Adroddiad yr Archwiliwr.

Roedd y Datganiad Cyfrifon unwaith eto wedi derbyn barn archwilio ddiamod, a oedd yn llwyddiant arwyddocaol o ystyried maint a chymhlethdod y cyfrifo. Cafwyd ymarfer mawr yn 2010/11 i gynhyrchu'n llwyddiannus gyfrifon a oedd yn cydymffurfio gyda'r safonau rhyngwladol newydd, ac roedd y broses i weithredu IFRS wedi parhau wrth i ofynion ychwanegol gael eu cyflwyno. Byddai trefniadau mewnol yn cael eu hadolygu bob blwyddyn i sicrhau bod y Cyngor yn parhau i gyflwyno datganiadau ariannol o safon uchel.

Amlygodd y Prif Gyfrifydd Dros Dro natur gymhleth y cyfrifon, a chyda chymorth cyflwyniad PowerPOint, rhoddodd drosolwg o'r prosesau a fabwysiadwyd. Roedd hyn yn cynnwys crynodeb manwl mewn perthynas â'r meysydd allweddol canlynol a'r materion yn ymwneud â'r Datganiad Cyfrifon:-

- Trosolwg
- Cyfrifon
- Prif Ddatganiadau Ariannol
- Proses a Fabwysiadwyd
- Cysylltiad â Cyllidebau Refeniw
- Rhifau a Nodiadau Allweddol
- Proses Archwilio
- Cwerstiynau

Rhoddodd y cyflwyniad drosolwg o'r prif newidiadau a oedd yn cynnwys cyflwyniad dosbarth newydd o asedau treftadaeth. Cadarnhawyd bod y Cyngor yn unol â hynny wedi newid ei bolisiâu a'i ddatgeliadau cyfrifeg yn unol â'r Cod Ymarfer.

Mewn ateb i gwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, ymatebodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau fel a ganlyn:-

- Byddai copïau o'r cyfrifon drafft yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.
- Gellid darparu copïau caled o'r adroddiadau ar gyfer 2011/12 a blynyddoedd yn y dyfodol i'r Aelodau yn ychwanegol at y fersiynau electronig.
- Rhoddwyd amlinelliad o'r anawsterau a gafwyd wrth ddarparu pris mewn perthynas ag asedau treftadaeth.
- Manylion a ddarparwyd mewn perthynas ag arwyddocad cronfeydd wrth gefn a mewn perthynas â'r cyfrifon terfynol a darpariaethau ar gyfer dyledion drwg.
- Mewn perthynas â rhoi sicrhau mewn cysylltiad â chysondeb cofnodion ar y gofrestr asedau a'r llechresi, gyda chyfeiriad penodol at asedau treftadaeth ac arteffactau penodol a ddelid gan y Cyngor. Esboniwyd bod dibyniaeth nawr ar ddarparu gwybodaeth gywir fanwl gan staff proffesiynol yn y Gwasanaeth Amgueddfa, ynghyd â chymorth proses Archwilio Mewnol.

Dosbarthwyd copi o Adroddiad Archwiliad y Datganiad Ariannol i Aelodau'r Pwyllgor. Cyflwynodd Archwilwyr Allanol y Cyngor, Swyddfa Archwilio Cymru, ganfyddiadau eu gwaith archwilio mewn perthynas â'r Datganiad Cyfrifon 2011/2012 a rhoi crynodeb manwl a oedd yn tanlinellu'r meysydd a'r materion canlynol:-

- Rhoi barn ar a oedd y datganiadau ariannol yn darparu golwg gywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyngor ar 31ain Mawrth 2012, a'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn.
- Gwaith archwilio mewn perthynas â'r datganiadau ariannol drafft ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2012 wedi ei gyflawni'n sylweddol.
- Adrodd ar y materion mwy arwyddocaol yn codi o'r archwiliad, yr oedd y tîm archwilio eisoes wedi eu trafod gyda'r Pennaeth Cyllid ac Asedau.
- Mabwysiadu syniad materoldeb i adnabod camddatganiadau perthnasol yn y datganiadau ariannol.
- Manylion lefelau meintiol ar y rhain y bernir camddatganiadau.
- Cyflwyno adroddiad archwilio diamod ar ddatganiadau ariannol Sir Ddinbych ac adrodd ar broblemau cyn eu cymeradwyo.
- Barn Swyddfa Archwilio Cymru yw bod cyfrifon Sir Ddinbych wedi cynrychioli golwg wirioneddol o'r sefyllfa ariannol, balansau a thrafodion.
- Mai'r bwriad yw cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar y datganiadau ariannol ar ôl darparu Llythyr o Gynrychiolaeth yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad.
- Bod yr adroddiad archwilio arfaethedig wedi ei nodi yn Atodiad 2.
- Nad oedd unrhyw gamddatganiadau wedi eu nodi yn y datganiadau ariannol, sy'n aros heb eu cywiro.
- Camddatganiadau a gafodd eu cywiro gan y rheolwyr, a oedd, oherwydd eu perthnasedd yn y broses adrodd ariannol, wedi eu nodi gydag esboniadau yn Atodiad 3.
- Roedd materion a ystyriwyd fel rhai ansoddol a meintiol mewn perthynas â'r cyfrifon wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.
- Nid oedd materion arwyddocaol eraill yn codi o'r archwiliad.
- Cyfeiriwyd at gamgymeriad torbwynt yn ymwneud â'r Rhaglen Gyfalaf, a chadarnhawyd y byddai hyn yn anochel oherwydd cau system credydwr ar ddyddiad penodol.

Diolchodd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru Dîm Cyllid Sir Ddinbych am y gwaith a wnaed yn cynhyrchu Datganiad Cyfrifon y Cyngor ac am eu cymorth a'u cefnogaeth. Cadarnhaodd SAC ansawdd uchel y cyfrifon a oedd unwaith eto wedi derbyn barn archwilio ddiamod.

Mewn ymateb i fater a godwyd gan y Cynghorydd M.L. Holland, cadarnhawyd nad oedd materion o bryder yn ymwneud â phroses gyfrifo, cofnodion na thrafodion y Cyngor.

Talodd y Pennaeth Cyllid ac Asedau deyrnged i waith caled ac ymestynnol y Tîm Cyllid yn cynhyrchu'r set gyfrifon derfynol, a nododd y cynnydd arwyddocaol yn y manylion sydd eu hangen wrth eu llunio, gyda newidiadau parhaus yn yr IFRS.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, diolchodd Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor i'r Tîm Cyllid am eu gwaith caled ac ansawdd a safon y Datganiad Cyfrifon a gynhyrchwyd.

**PENDERFYNWYD:-**

- (a) Cymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon 2011/2012, Atodiad 1 i'r adroddiad, a'i lofnodi gan Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a*
- (b) Bod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a'r Prif Swyddog Cyllid yn llofnodi'r Llythyr Cynrychiolaeth.*

Daeth y cyfarfod i ben am 10.30 a.m.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Adroddiad i:** Pwyllgor Rheolaeth Gorfforaethol

**Dyddiad y Cyfarfod:** 14 Tachwedd 2012

**Aelod/ Swyddog Arweiniol:** Cyng. Barbara Smith / Alan Smith

**Awdur yr Adroddiad:** Tony Ward

**Teitl:** Llythyr Asesu Gwelliannau Cyngor Sir Dinbych

---

## **1. Beth yw pwnc yr adroddiad?**

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno Llythyr Asesu Gwelliannau i Gyngor Sir Dinbych a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (WAO) ar 17 Medi 2012. Mae'r llythyr wedi'i atodi i Atodiad I.

## **2. Beth yw'r rheswm dros gyflwyno'r adroddiad hwn?**

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi gwybodaeth am un o'r prif adroddiadau rheoleiddiol allanol a dderbynnir gan y cyngor bob blwyddyn.

## **3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y pwyllgor yn ystyried yr adroddiad ac yn amlygu unrhyw faterion y mae'n teimlo y dylid eu codi gyda'r Pwyllgor Craffu Perfformiad pan fydd yr adroddiad yn cael ei drafod yno ar 29 Tachwedd 2012.

## **4. Manylion yr adroddiad**

Asesu Gwelliannau yw prif fecanwaith y WAO i adrodd am ei asesiad o berfformiad y cyngor a'i ragolygon am welliannau. Cyhoeddwyd y Llythyr Asesu Gwelliannau diweddaraf ar 17 Medi 2012. Er nad oes unrhyw argymhellion ffurfiol yn y llythyr, mae gan yr Aelodau gyfle i drafod y llythyr er mwyn penderfynu a oes unrhyw agweddau arbennig o berfformiad sydd angen eu craffu ymhellach.

Disgwylir cyhoeddi'r Llythyr Asesu Gwelliannau nesaf gan y WAO cyn diwedd mis Tachwedd 2012. Dylid cyflwyno'r llythyr hwn i'r pwyllgor hwn yn ei gyfarfod ar 27 Chwefror 2013.

## **5. Sut mae'r adroddiad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Mae'r Llythyr Gwelliannau Blynyddol yn rhoi asesiad o berfformiad y cyngor a hefyd o'i ragolygon am welliannau. Elfen allweddol o'r wybodaeth a ystyrir gan y WAO wrth ddrafftio'r llythyr yw perfformiad y cyngor o safbwynt cyflawni'r blaenoriaethau yn ei Gynllun Corfforaethol. Disgwylir i'r WAO asesu'n ffurfiol Adroddiad Perfformiad Blynyddol y cyngor a'i Gynllun Corfforaethol. Nid oedd un o'r dogfennau ar gael i'w hasesu cyn cyhoeddi'r Llythyr Asesu Gwelliannau hwn, gan i'r fersiynau drafft o'r

ddwy ddogfen gael eu trafod (a'u cymeradwyo) gan y Cyngor ar 9 Hydref 2012. Bydd y WAO felly'n cynnwys gwerthusiad o'r ddwy ddogfen yn ei Lythyr Asesu Gwelliannau diweddaraf sydd i'w gyhoeddi cyn diwedd mis Tachwedd 2012.

#### **6. Beth fydd y gost a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Nid oes unrhyw oblygiadau i unrhyw faes gwasanaeth arbennig.

#### **7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd ac a gynhaliwyd Sgrinio Asesu Effaith Cydraddoldeb?**

Cynhaliodd y WAO nifer o gyfweiliadau gyda swyddogion perthnasol ac Aelodau Etholedig cyn drafftio'r Llythyr Asesu Gwelliannau. Rhannwyd yr adroddiad drafft gyda'r cyngor a gofynnwyd am adborth cyn ei gyhoeddi.

Ni fu'n rhaid cynnal Asesiad Effaith Cydraddoldeb o'r adroddiad hwn gan nad oes angen penderfyniad fydd yn effeithio ar staff na defnyddwyr gwasanaethau. Fodd bynnag, cynhaliwyd asesiad effaith cydraddoldeb ar Gynllun Corfforaethol y cyngor 2012-17. Bydd hwn yn cael ei ystyried yn Llythyr Asesu Gwelliannau diweddaraf y WAO sydd i'w gyhoeddi cyn diwedd mis Tachwedd 2012.

#### **8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol arwyddocaol amlwg yn codi o'r adroddiad.

#### **9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ni ei wneud i leihau'r rhain?**

Nid yw'r adroddiad hwn yn achosi unrhyw risgiau newydd i'r cyngor.

#### **10. Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Mae'r adroddiad hwn er gwybodaeth, yn hytrach na phenderfyniad.



24 Cathedral Road / Heol y Gadeirlan  
Cardiff / Caerdydd  
CF11 9LJ  
Tel / Ffôn: 029 20 320500  
Fax / Ffacs: 029 20 320600  
Email / Ebst: [wales@wao.gov.uk](mailto:wales@wao.gov.uk)  
[www.wao.gov.uk](http://www.wao.gov.uk)

Dr Mohammed Mehmet  
Prif Weithredwr  
Cyngor Sir Ddinbych  
Neuadd y Sir  
Ffordd Wynnstey  
Rhuthun  
Sir Ddinbych  
LL15 1YN

Dyddiad 17 Medi 2012  
Ein cyfeirnod 494A2012  
Eich cyfeirnod  
Rhif Ffôn  
E-bost  
Tudalennau 1 o 7

Annwyl Mohammed

## Aseiad Gwella

Mae'n ofynnol i mi, o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), gyflwyno adroddiad ar fy ngwaith archwilio ac asesu ynghylch a yw Cyngor Sir Ddinbych wedi cyflawni ei ddyletswyddau ac wedi bodloni gofynion y Mesur.

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi:

- fy marn ynghylch a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas â chynllunio gwelliant;
- fy marn ar gydymffurfiaeth y Cyngor â'r gofynion i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus, yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys:
  - cynnydd y Cyngor mewn perthynas â meysydd i'w gwella ac argymhellion a nodwyd yn fy asesiadau blaenorol;
  - unrhyw faterion perthnasol a all fod wedi dod i'r amlwg ers fy adroddiad diwethaf, gan gynnwys sylwadau ar sut mae'r Cyngor yn mynd i'r afael â heriau ariannol;
  - crynodeb byr o unrhyw adroddiadau gan reoleiddwyr perthnasol a gyhoeddwyd ers fy adroddiad diwethaf.
- fy nghynigion pellach ar gyfer gwella a/neu argymhellion;
- diweddariadau i gynllun gwaith ac amserlen Swyddfa Archwilio Cymru ar gyfer cyflawni fy ngwaith ar yr Aseiad Gwella.

Byddaf yn diweddarau fy safbwyntiau yn ystod y flwyddyn ac yn anfon llythyr arall erbyn diwedd mis Tachwedd 2012.

## **Nid wyf yn gallu nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gynllunio gwelliant o dan y Mesur gan nad yw'r Cyngor wedi cyhoeddi ei Gynllun Gwella ar gyfer eleni**

Yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2012, penododd y Cyngor Gabinet newydd. Mae cyfansoddiad y Cabinet wedi newid ond mae'n wleidyddol gytbwys o hyd, yn unol â chyfansoddiad y Cyngor. Cyngorwyr Llafur sydd bellach yn ffurfio'r wrthblaid.

Mae'r Cyngor wrthi'n datblygu Cynllun Corfforaethol newydd ac yn pennu a all gyflawni ei saith blaenoriaeth ddrafft arfaethedig erbyn 2017. Mae Cyngorwyr yn arwain y trafodaethau hyn, sydd bellach yn destun ymgynghoriad cyhoeddus arall, ac mae'r Cyngor yn rhagweld y cytunir ar y Cynllun Corfforaethol yn ystod hydref 2012. Mae'r Cyngor yn cynnal cryn dipyn o waith ymgynghori ac ymgysylltu â thrigolion a'i staff yn cynnwys:

- Arolwg Trigolion: ymatebodd 2,256 o aelwydydd i arolwg;
- Arolwg Cyhoeddus: ymatebodd 1,228 o bobl i arolwg ar wefan y Cyngor ac mewn canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, ac ardaloedd derbyn y Cyngor;
- gweithdai gyda phobl ifanc.

Byddaf yn darparu llythyr arall erbyn diwedd Tachwedd 2012 a fydd yn asesu a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i gynllunio gwelliannau o dan y Mesur ac yn adolygu'r nodau (yn cynnwys dangosyddion perfformiad a thargedau ond heb fod yn gyfyngedig iddynt o gwbl) y mae'r Cyngor wedi'u pennu ar ei gyfer ei hun er mwyn monitro i ba raddau y mae'n cyflawni ei amcanion gwella.

## **Yn seiliedig ar waith a wnaed hyd yma gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol ac yn gyfyngedig iddo:**

### **Credaf fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon**

Deuthum i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

- Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd rhesymol o ran y ddau faes ar gyfer gwella a nodwyd yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf.
- Mae trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus unwaith y bydd y Cyngor yn atgyfnerthu ymhellach ei drefniadau llywodraethu TGCh ac yn llwyddo i gwblhau Cam Un o'i strategaeth TGCh.

- Daeth arolygiad gan AGGCC i'r casgliad bod y Cyngor yn darparu asesiad ymatebol ac amserol i'r rhan fwyaf o'r oedolion sydd ag anghenion gofal cymdeithasol a'i fod yn ymateb i'r heriau wrth weithredu strategaeth y Cyngor a'i datblygu ymhellach
- Mae Estyn o'r farn bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau addysg o safon i blant a phobl ifanc a bod y rhagolygon ar gyfer gwella yn dda.

### **Mae'r Cyngor yn gwneud cynnydd rhesymol o ran y ddau faes ar gyfer gwella a nodwyd yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf**

Cynigiais ddau beth i'w gwella yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2012, a nodais hefyd rai meysydd lle y byddem yn gwneud rhagor o waith. Rhoddir crynodeb o'r cynnydd ar y materion hyn isod ac yn Atodiad 1:

- Cynigiais y dylai'r Cyngor ddefnyddio ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu i ddarparu hunanasesiad mwy cadarn o'u heffeithiolrwydd. Cynhaliodd y Cyngor adolygiad llywodraethu corfforaethol fel rhan o'r broses o ddiweddarau ei *Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol* a chytuno arno. Nododd yr adolygiad fod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i gyflawni'r chwe egwyddor yn y fframwaith ond nododd yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau dair risg llywodraethu fawr:
  - Llywodraethu partneriaethau:
  - Llywodraethu gwybodaeth:
  - Perfformiad a datblygiad aelodau etholedig

Mae'r Cyngor yn drafftio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol newydd. Byddwn yn gwneud rhagor o waith ym mhob cyngor yng Nghymru ar lunio Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a byddaf yn llunio adroddiad cenedlaethol maes o law. Byddaf yn rhoi adborth pellach i'r Cyngor yn ddiweddarach eleni.

- Cynigiau erbyn mis Medi 2012, y dylai'r Cyngor bennu'n fanylach sut y bydd yn cefnogi cynllun cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen*. Mae cyfrifoldeb rheoli o fewn y Cyngor ar gyfer *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* yn mynd drwy gyfnod pontio fel rhan o'r broses o ad-drefnu dyletswyddau ymhlith penaethiaid gwasanaethau'r Cyngor ac ar lefel uwch bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol, a benodwyd yn ddiweddar, yn gyfrifol am ddatblygu economaidd. Byddaf yn darparu asesiad pellach o gynnydd o ran cynllun cyflenwi *Y Rhyl yn Symud Ymlaen* yn ddiweddarach yn y flwyddyn, yn cynnwys gwerthusiad o'r canlynol:

- sut mae'r cynllun yn gweddu i raglen adfywio'r sir;
- i ba raddau y mae'r cynllun yn cadarnhau'r staff a'r adnoddau ariannol a fydd ar gael i gyflawni amcanion;
- y trefniadau ar gyfer gwerthuso cynnydd o bryd i'w gilydd.

**Mae trefniadau presennol y Cyngor ar gyfer datblygu, defnyddio a chefnogi technoleg yn debygol o gefnogi gwelliant parhaus unwaith y bydd y Cyngor yn atgyfnerthu ymhellach ei drefniadau llywodraethu TGCh ac yn llwyddo i gwblhau Cam Un o'i strategaeth TGCh**

Deuthum i'r casgliad hwn oherwydd y canlynol:

- Mae'r Cyngor wedi canolbwyntio ar ddatblygu sianeli mynediad cwsmeriaid sy'n dechrau perfformio yn dda, ond nid yw eto yn manteisio i'r eithaf ar botensial technoleg i weddnewid gwasanaethau a sicrhau arbedion effeithlonrwydd.
- Nid yw'r trefniadau llywodraethu TGCh yn alinio'n llwyr â blaenoriaethau gwella a gweddnewid y Cyngor nac yn cefnogi'r broses o'u cyflawni ac mae gwendidau o ran y trefniadau pennu adnoddau technoleg.

**Daeth arolygiad gan AGGCC i'r casgliad bod y Cyngor yn darparu asesiad ymatebol ac amserol i'r rhan fwyaf o'r oedolion sydd ag anghenion gofal cymdeithasol a'i fod yn ymateb i'r heriau wrth weithredu strategaeth y Cyngor a'i datblygu ymhellach**

Cynhaliodd AGGCC arolygiad o'r trefniadau ar gyfer asesu a rheoli gofal oedolion a gaiff eu cyfeirio at Wasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mehefin 2012.

Mae'r prif gasgliadau fel a ganlyn:

- Mae'r model gwasanaeth a fabwysiadwyd gan y Cyngor yn ei alluogi i ddarparu asesiad ymatebol ac amserol i'r rhan fwyaf o oedolion sydd ag anghenion gofal cymdeithasol.
- Mae'r Cyngor yn gallu darparu tystiolaeth sylweddol o foddhad defnyddwyr gwasanaethau. Caiff arferion newydd eu cyflwyno i geisio sicrhau bod adborth defnyddwyr gwasanaethau yn cael ei ymgorffori mewn ymyriadau gwasanaethau cymdeithasol a'i ddefnyddio'n fwy effeithiol i lywio prosesau rheoli perfformiad a gwerthuso a datblygu gwasanaethau.
- Strategaeth y Cyngor yw cefnogi'r gwaith o ddatblygu amrywiaeth o wasanaethau a chyfleusterau cymunedol prif ffrwd i ddiwallu anghenion mewn ffordd sy'n annog annibyniaeth. Er bod gwasanaethau amrywiol yn cael eu datblygu, mae heriau o hyd mewn perthynas â meysydd arbenigol penodol, fel cynyddu taliadau uniongyrchol.

## **Mae Estyn o'r farn bod y Cyngor yn darparu gwasanaethau addysg o safon i blant a phobl ifanc a bod y rhagolygon ar gyfer gwella ymhellach yn dda**

Cynhaliodd Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn) arolygiad o wasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Chwefror 2012.

Mae'r prif gasgliadau fel a ganlyn:

- mae perfformiad cyffredinol disgyblion yn dda ac wedi gwella ym mhob cyfnod allweddol, yn arbennig cyfnod allweddol 4;
- mae perfformiad wedi gwella yn erbyn meincnodau disgwylidig Llywodraeth Cymru yn seiliedig ar yr hawl i gael prydau ysgol am ddim;
- mae nifer y bobl a gaiff eu gwahardd wedi lleihau a nifer gyffredinol y dyddiau a gollir oherwydd gwaharddiad yw'r isaf yng Nghymru;
- mae gan y Cyngor drefniadau da iawn i gefnogi a herio ysgolion ac mae'n adnabod ei ysgolion yn dda iawn;
- mae cefnogaeth i wella ysgolion, anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiant cymdeithasol oll yn dda;
- mae nifer yr ysgolion yn Sir Ddinbych y mae angen gwaith dilynol arnynt ar ôl arolygiad ymhlith yr isaf yng Nghymru;
- mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd da o ran cyflwyno ei raglen Moderneiddio Addysg;
- mae'r diwylliant o arweinyddiaeth gref iawn gan aelodau etholedig ac uwch swyddogion wedi ysgogi newid a gwelliant sylweddol ar gyflymder da;
- mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda

## **Cynigion pellach ar gyfer gwella/argymhellion**

Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhellion na chynigion newydd ar gyfer gwella yn y llythyr hwn. Byddwn yn parhau i fonitro'r cynnydd a wneir gan y Cyngor o ran gweithredu'r cynigion a nodwyd yn fy adroddiadau a'm llythyrau blaenorol a chyflwyno adroddiadau arno.

## **Diweddariadau i'r cynllun gwaith a'r amserlen**

Bydd Tîm yr Asesiad Gwella yn sicrhau bod y Cyngor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y trefniadau manwl ar gyfer cyflawni fy ngwaith asesu. Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen a gaiff eu diweddarau'n rheolaidd yn rhoi rhagor o fanylion am y gwaith sy'n cael ei gyflawni yn ystod asesiad eleni ac yn benodol sut y byddwn yn ychwanegu gwerth drwy ganolbwyntio ar feysydd neu wasanaethau a nodwyd ar y cyd.

Mae'r cynllun gwaith a'r amserlen yn ystyried fy ymgynghoriad â'r awdurdodau gwella ar fy nghynigion ar gyfer gwaith archwilio perfformiad 2012-13. Yn benodol, byddaf yn gofyn i Dîm yr Asesiad Gwella ystyried yn ystod y flwyddyn faint y gallwn ddibynnu ar y prosesau hunanasesu (gan gynnwys eich adolygiad o lywodraethu wrth gynhyrchu'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'ch Adroddiad Perfformiad Blynyddol). Byddaf yn gwneud sylwadau ar y gwaith hwn yn fy Adroddiad Gwella Blynyddol.

Rwy'n ddiolchgar i'r Cyngor am y ffordd y mae wedi helpu i hwyluso ein gwaith. Rwyf yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddarparu lefelau priodol o sicrwydd cyhoeddus gan eich helpu ar yr un pryd i liniaru'r risgiau anochel i wasanaethau ac atebolrwydd sy'n deillio o leihad mewn adnoddau a newidiadau o ganlyniad i hynny.

Yn gywir



**HUW VAUGHAN THOMAS**

**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

CC: Carl Sargeant, Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau

Huw Lloyd Jones – Rheolwr

Gwilym Bury - Arweinydd Archwilio Perfformiad

## Atodiad 1

Cynigion ar gyfer gwella a wnaed yn Adroddiad Gwella Blynyddol 2012	Cynnydd
<p>C1 Fel awdurdodau eraill yng Nghymru, dylai'r Cyngor ddefnyddio ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu i ddarparu hunanasesiad mwy cadarn o'u heffeithiolrwydd.</p>	<p>Cynigiais y dylai'r Cyngor ddefnyddio ei adolygiad blynyddol o drefniadau llywodraethu i ddarparu hunanasesiad mwy cadarn o'u heffeithiolrwydd. Cynhaliodd y Cyngor adolygiad llywodraethu corfforaethol fel rhan o'r broses o ddiweddarau ei <i>Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol</i> a chytuno arno. Nododd yr adolygiad fod gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i gyflawni'r chwe egwyddor yn y fframwaith ond nododd yr adolygiad o effeithiolrwydd y trefniadau dair risg lywodraethu fawr:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Llywodraethu partneriaethau</li> <li>• Llywodraethu gwybodaeth</li> <li>• Perfformiad a datblygiad aelodau etholedig</li> </ul> <p>Mae'r Cyngor yn drafftio ei Ddatganiad Llywodraethu Blynyddol newydd. Byddwn yn gwneud rhagor o waith ym mhob cyngor yng Nghymru ar lunio Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a byddaf yn llunio adroddiad cenedlaethol maes o law. Byddaf yn rhoi adborth pellach i'r Cyngor yn ddiweddarach eleni.</p>
<p>C2 Erbyn mis Medi 2012 dylai'r Cyngor bennu sut y bydd yn cefnogi cynllun cyflenwi <i>Y Rhyl yn Symud Ymlaen</i> gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• dangos sut mae'n gweddu i raglen adfywio'r sir;</li> <li>• cadarnhau'r staff a'r adnoddau ariannol a fydd ar gael i gyflawni amcanion;</li> <li>• trefniadau ar gyfer gwerthuso cynnydd o bryd i'w gilydd.</li> </ul>	<p>Cynigiasf erbyn mis Medi 2012, y dylai'r Cyngor bennu'n fanylach sut y bydd yn cefnogi cynllun cyflenwi <i>Y Rhyl yn Symud Ymlaen</i>. Mae cyfrifoldeb rheoli o fewn y Cyngor ar gyfer <i>Y Rhyl yn Symud Ymlaen</i> yn mynd drwy gyfnod pontio fel rhan o'r broses o ad-drefnu dyletswyddau ymhlith penaethiaid gwasanaethau'r Cyngor ac ar lefel uwch bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Uchelgais Economaidd a Chymunedol, a benodwyd yn ddiweddar, yn gyfrifol am ddatblygu economaidd. Byddaf yn darparu asesiad pellach o gynnydd o ran cynllun cyflenwi <i>Y Rhyl yn Symud Ymlaen</i> yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</p>

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

<b>Adroddiad ar gyfer:</b>	<b>Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol</b>
<b>Dyddiad y Cyfarfod:</b>	<b>Tachwedd 14, 2012</b>
<b>Awdur yr Adroddiad:</b>	<b>Pennaeth Gwasanaethau Archwilio Mewnol</b>
<b>Teitl:</b>	<b>Adroddiad ar Gynnydd Archwilio Mewnol</b>

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Mae'r adroddiad hwn yn diweddarar'r Pwyllgor ar y cynnydd diweddaraf gan y gwasanaeth Archwilio Mewnol o ran cyflenwi ei wasanaeth, darparu sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd yn gyrru gwelliant. Mae hefyd yn cynnig Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol diwygiedig ar gyfer 2012/13.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

I ddiweddarau Aelodau ar:

- gyflenwad ein Cynllun Gweithredol ar gyfer 2012/13
- Cynllun Gweithredol diwygiedig ar gyfer 2012/13
- adroddiadau Archwilio Mewnol diweddar a gafwyd
- ymateb rheolaeth i faterion a godwyd gennym
- perfformiad Archwilio Mewnol

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

- Y Pwyllgor i ystyried cynnydd a pherfformiad Archwilio Mewnol hyd yma yn 2012/13 a rhoi sylwadau
- Y Pwyllgor i ystyried a chymeradwyo ein Cynllun Corfforaethol diwygiedig 2012/13
- Y Pwyllgor i ystyried adroddiadau Archwilio Mewnol a gafwyd yn ddiweddar a rhoi sylwadau
- Y Pwyllgor i ystyried yr ymateb i'n gwaith dilyniannol

## 4. Cynnydd Archwilio Mewnol

### *Cyflenwi Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2012/13*

- 4.1 Wrth i risgiau corfforaethol a risgiau gwasanaeth newid o fewn y Cyngor bydd Archwilio Mewnol yn ystyried ei strategaeth a'i gynllun gweithredol i sicrhau ei fod yn dal yn berthnasol a'i fod yn dal i ddelio â meysydd blaenoriaeth. Yn dilyn cyfres o gyfarfodydd â phenaethiaid gwasanaeth, mae Atodiad 1 yn cynnwys adolygiad arfaethedig o'n Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2012/13, ynghyd â'r adroddiad arferol ar gynnydd.
- 4.2 Mae'r tabl yn cynnwys y dyddiau a gynlluniwyd yn wreiddiol, diwygiadau i'r dyddiau a gynlluniwyd ac esboniadau ar unrhyw newidiadau. Mae hefyd yn rhoi dadansoddiad o'n gwaith yn ystod 2012/13, gyda sgorau sicrwydd a nifer o faterion a godwyd ar gyfer yr adolygiadau a gwblhawyd.

### ***Crynodeb o Adroddiadau Archwilio Mewnol Diweddar***

4.3 Mae ein hadroddiadau'n defnyddio lliwiau ar gyfer dosbarthiadau sicrwydd fel a ganlyn:

<b>Gwyrdd</b>	Sicrwydd Uchel	Risgiau a rheoliadau wedi eu rheoli'n dda
<b>Melyn</b>	Sicrwydd Canolig	Risgiau wedi eu nodi ond yn rheoladwy ar lefel gwasanaeth
<b>Ambr</b>	Sicrwydd Isel	Risgiau a nodwyd sy'n gofyn am gyfarfod â'r Cyfarwyddwr/Aelod Arweiniol
<b>Coch</b>	Dim Sicrwydd	Risgiau sylweddol wedi eu nodi sy'n gofyn am gynhadledd achos aelod / swyddog

4.4 Ers fy adroddiad ym Medi 2012, rydyn ni wedi rhoi'r adroddiadau canlynol:

Adroddiad Archwilio	Barn Archwilio	Materion a Godwyd			Sylwadau
		Risg Critigol	Risg Mawr (Ambr)	Risg Cymedrol (Melyn)	
Cyllid Myfyrwyr Addysg Uwch	<b>Gwyrdd</b>	0	0	1	Adroddiad Trosolwg Cryno
Gwasanaeth Refeniw a Budd-daliadau	<b>Gwyrdd</b>	0	0	4	
Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol	<b>Melyn</b>	1	2	10	Adroddiad ar y cyd â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Gwasanaeth Cyfieithu	<b>Melyn</b>	0	1	1	
Cynllunio Dilyniant Busnes	<b>Ambr</b>	0	1	0	Adroddiad Trosolwg Cryno
Adnoddau Dynol Strategol	<b>Ambr</b>	0	1	10	

### ***Ymateb Rheolaeth i faterion a godwyd gan Archwilio Mewnol***

- 4.5 Mae'r rhan fwyaf o'n hadroddiadau Archwilio Mewnol yn nodi risgiau ac yn rheoli gwendidau. Rydyn ni'n graddio'r rhain yn risg critigol, mawr neu gymedrol. Bydd Rheolaeth yn cytuno camau i ddelio â'r risgiau hyn, yn cynnwys cyfrifoldebau a graddfeydd amser.
- 4.6 Byddwn yn adrodd pob achos lle bydd rheolaeth yn methu ag ymateb i'n gwaith dilyniannol neu lle byddan nhw'n mynd dros y dyddiad gweithredu a gytunwyd o fwy na thri mis. Bydd y Pwyllgor yma'n penderfynu a oes angen iddo gymryd camau pellach, er enghraifft, drwy alw'r bobl berthnasol i'w gyfarfod i esbonio'r diffyg cynnydd.
- 4.7 Ar hyn o bryd does yna ddim camau sydd wedi mynd dros y terfyn amser o dri mis a dim ymateb sy'n dal ar ôl i'w adrodd i'r Pwyllgor yma.

## **Perfformiad Archwilio Mewnol – Mesurau Allweddol**

**Mesur** - Adolygu 100% o feysydd Sicrwydd S151 a gytunwyd yn y Cynllun Archwilio Gweithredol erbyn Mawrth 31, 2013

4.8 Hyd yma, rydyn ni wedi cwblhau 40% o'r prosiectau a gynlluniwyd, gydag eraill wedi eu rhaglennu'n ddiweddarach yn y flwyddyn ariannol.

**Mesur** - Adolygu 100% o feysydd Sicrwydd Llywodraethu Corfforaethol a gytunwyd yn y Cynllun Archwilio Gweithredol erbyn Mawrth 31, 2013

4.9 Mae gwaith yn gyfredol ar y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol drwy gydol y flwyddyn. Rydyn ni wedi cychwyn prosiect o Reolih Perfformiad ac fe wnawn adolygu rheolaeth risg yn ail hanner y flwyddyn.

**Mesur** - Adolygu 100% o feysydd Sicrwydd Risg Corfforaethol Uchel a gytunwyd yn y Cynllun Archwilio Gweithredol erbyn Mawrth 31, 2013

